TAG UWCH – NEWYDD

1570N30-1A

**MAWRTH 2022**

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

## U2 Uned 3 – Safbwyntiau damcaniaethol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc

**Astudiaeth Achos i'w Rhyddhau Ymlaen Llaw**

**I'W ROI I YMGEISWYR O 1 MAWRTH 2022 YMLAEN**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

**Ni allwch** fynd â'r deunydd hwn nac unrhyw ddeunydd ymchwil cysylltiedig i mewn i'r arholiad gyda chi.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae'r wybodaeth dros y dudalen wedi'i darparu i'ch helpu chi i baratoi ar gyfer Adran A yn yr arholiad 'Safbwyntiau damcaniaethol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc'.

ⓗ WJEC CBAC Cyf. PJ*(X22-1570N30-1A)

**Mae’r cyd-destun ar gyfer Adran A yr arholiad Uned 3 yn haf 2022 wedi’i amlinellu isod.**

Mae Elen yn 14 oed. Cafodd ei rhieni ysgariad pan oedd hi’n 4 oed. Arhosodd Elen yng ngofal ei thad a dydy hi ddim wedi cael unrhyw gysylltiad â’i mam. Mae hi nawr yn byw gyda’i thad, ei llysfam (*stepmother*) a’i hanner brawd, Rhodri, sy’n 3 oed. Mae’r teulu wedi symud nifer o weithiau ac maen nhw nawr yn byw ar stad o dai (*housing estate*) ar gyrion tref fawr.

Dros yr 18 mis diwethaf, mae Elen wedi dechrau ymddwyn yn aflonyddgar (*disruptive*) yn y dosbarth ac mae hi’n achosi pryder yn yr ysgol. Mae hi hefyd wedi dechrau cael enw drwg am achosi trwbl yn ei chymuned, sydd hefyd yn achosi anawsterau (*difficulties*) gartref.

Mae rhieni Rhodri hefyd yn pryderu amdano. Mae Rhodri yn 3 oed, ond mae’n dal i siarad mewn geiriau unigol yn bennaf yn hytrach na brawddegau, ac nid yw ei leferydd yn glir. Mae’n aml yn defnyddio ystumiau (*gestures*) ac yn pwyntio i gyfathrebu am ei anghenion yn hytrach na chyfathrebu ar lafar. Mae Rhodri yn mynd i Gylch Meithrin lleol, ac mae’n cael trafferth ymgartrefu (*settle in*).

Wrth baratoi ar gyfer Adran A yn y papur arholiad Uned 3, rydyn ni’n eich cynghori i ymchwilio i’r canlynol:

- meysydd datblygiad allweddol mewn plant a phobl ifanc: corfforol, gwybyddol, ieithyddol/iaith, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol
- pwrpas chwarae
- mathau o chwarae
- ffactorau sy’n effeithio ar ymddygiad plant a phobl ifanc
- strategaethau a dulliau (*approaches*) sy’n cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol.